

“Only Half with The Visible”

Fern Thomas' *Spirit Mirror*

Amy Hale

Cyhoeddwyd ar adeg yr arddangosfa

Fern Thomas
Spirit Mirror

8 Ionawr– 20 Mawrth 2022

Arddangosfa wreiddiol gan Oriol Gelf

Lluniau: Trwy garedigrwydd yr artistiaid a Oriol Gelf Glynn Vivian
Page 8: William Blake (1757-1827) Europe, A Prophecy and Songs of
Innocence and Experience, 1794, Casgliad Oriol Gelf Glynn Vivian
© 2022 Amy Hale, Fern Thomas a Oriol Gelf Glynn Vivian
Ffoto: Polly Thomas

Oriol Gelf Glynn Vivian, Alexandra Road, Abertawe SA1 5DZ
glynnvivian.co.uk

Mae Oriol Glynn Vivian yn rhan o Ddinas a Sir Abertawe ac fe'i cefnogir
drwy grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru Cyhoeddwyd

Fern Thomas

Mae arfer Fern Thomas, a anwyd yn ne Cymru ym 1983, yn canolbwyntio
ar brosesau ac egwyddorion Cerflunwaith Cymdeithasol. Yn ddiwed-
dar mae Thomas wedi datblygu set ffuglennol o ynysoedd, Springtides
Archipelago, sef man ymchwil poly-gronig lle gall fwynhau ei holl waith.
Mae prosiectau a chomisiynau diweddar yn cynnwys *The Hidden Noise:
Tinnitus and Art* yn oriel OVADA, Rhydychen, Cymrodoriaeth g39 gydag
oriol g39, Caerdydd fel rhan o Raglen Celfyddydau Sylfaen Freemans, ac
a fu'n rhan o CoDI, sef Rhaglen Sain Arbrofol Tŷ Cerdd yng Nghaerdydd.
Ar hyn o bryd mae'n artist preswyl ar gyfer Cysylltiadau Hynafol, sef
prosiect celfyddydau a threftadaeth a gynhelir yn Sir Benfro.

Amy Hale

Mae Dr Amy Hale yn anthropolegydd ac yn astudiwr llên-gwerin sy'n
ysgrifennu am hanes dirgel, celf a menywod a diwylliant.
Mae ei bywgraffiad o *Ithell Colquhoun, Genius of the Fern Loved Gully,
ar gael o wasg Strange Attractor*, ac mae hefyd yn olygydd *Essays on
Women in Western Esotericism: Beyond Seeresses and Sea Priestesses*
(Palgrave Macmillan). Gellir dod o hyd ddarnau ysgrifenedig eraill ar ei
gwefan Medium <https://medium.com/@amyhale93> a'i gwefan www.
amyhale.me.

“Only Half with The Visible”: *Spirit Mirror* Fern Thomas

Mae hollbresenoldeb drychau heddiw wedi peri i ni anghofio eu bod yn brin, yn werthfawr ac yn hudolus gynt. Roeddent yn anodd eu gwneud, yn werthfawr, a hefyd braidd yn ddirgel. Yn ôl chwedloniaeth, cawsant eu defnyddio fel ffyrdd o weld gyda chanlyniadau hudol - credir eu bod yn helpu i gynhyrchu gweledigaethau, a darganfod y dyfodol. Pyrth a chynwysyddion sy'n gallu dal ysbrydion yw drychau. Gallant fod yn gyfrwng ar gyfer teithio i ddimensiynau eraill, i ni a hefyd yr endidau sy'n aros i gysylltu â ni ar yr ochr arall. Os ydych wedi'ch hyfforddi'n dda yn y celfyddydau lledrithiol, gallwch anfon eich corff etheraid eich hun drwy ddrych i fydoedd nas gwelwyd o'r blaen, ond mae risg y gallwch fynd ar goll am byth.

Comisiynwyd gosodiad brawychus Fern Thomas, *Spirit Mirror* fel gwaith ategol i gyd-fynd â'r arddangosfa *Not Without My Ghosts-The Artist as Medium*, sy'n canolbwyntio ar ddarluniau a grëwyd gyda chymorth ysbrydion, neu sydd mewn rhyw ffordd yn ddyledus iddynt. Mae Thomas wedi creu darn arbennig sy'n goeth yn ei gymhlethdod, wedi'i ysbrydoli gan ei diddordeb yn Winifred Coombe Tennant - Pleidiwr Cymreig, dyngarwr y celfyddydau, ysbrydegydd a mam. Yn y bôn, dyma arddangosfa am sut rydym yn goresi marwolaeth.

Roedd Winifred Coombe Tennant yn gymeriad cryf. Roedd hi'n weithredydd diflino mewn nifer o feysydd ac roedd hi'n aml yn ymgyrchu dros y rhai heb lais. Roedd hi'n adnabyddus dan ei henw barddol “Mam o Nedd”, ac yn frwd dros etifeddiaeth artistig unigryw Cymru. Roedd hi'n noddwr hael y celfyddydau gweledol ac yn eu hyrwyddo drwy ei gwaith gyda'r Eisteddfod a hefyd wrth lunio casgliad Oriel Gelf Glynn Vivian. Roedd hi'n etholfreintwr, yn ddiwygiwr carchardai, yn ynad, yn ymgeisydd Rhyddfrydol ac yn gynrychiolydd Cynghrair y Cenhedloedd. Roedd hi hefyd yn fam a gollodd ferch a mab, a'r gollod hon sy'n dod yn ganolbwynt emosynol i waith cymhleth Thomas, sy'n aml yn deimladwy.








Nid drwy weithredaeth yn unig yr oedd Coombe Tenant yn rhoi llais i'r di-lais. Roedd hi hefyd yn ysbrydegydd a ysbrydolwyd i fod yn gyfryngwr gan farwolaeth ei merch annwyl, Daphne. Bu farw Daphne yn 17 mis oed yn unig, ac yn dilyn ei marwolaeth roedd Tenant Coombe yn galaru'n fawr amdani. Roedd hi'n gweithredu fel cyfryngwr dan gêl, gan ddefnyddio'r enw "Mrs. Willett", a dechreuodd dangos diddordeb mewn ysbrydegaeth, gan ymuno â bwrdd y Gymdeithas dros Ymchwil Seicig yn y pen draw. Yn *Spirit Mirror*, mae Thomas, yr artist, hefyd yn gyfryngwr, gan alw ysbryd Coombe Tennant ymlaen i fod yn bresennol yn ein plith.

Mae'r gosodiad hwn yn cynnwys sawl adran ar wahân, ac eto maent wedi'u cysylltu drwy themâu fel cariad, mamolaeth, teulu, tirwedd, lle a'r dwyfol. Mae Thomas a Coombe Tennant yn rhannu hanes yng Nghastell-nedd, lle mae Thomas wedi dod ar draws egni rhithiol Coombe Thomas yn y dirwedd a'r adeiladau yno. Cafodd y prosiect ei ysbrydoli'n rhannol hefyd gan Thomas yn darllen un o ddyddiaduron Coombe Tennant, yr oedd ei disgrifiadau personol a thyner o natur a mamolaeth wedi effeithio'n fawr arni. Yn *Spirit Mirror* gwelwn Thomas yn mynegi ymgysylltiad emosiynol dwfn â bywyd y fenyw hon, sy'n deillio o brosesu greddfol a chyfuniad o arteffactau ac ysbryd. Mae Thomas yn aml yn gweithio gydag archifau ac mae ei chasgliad ehangach, sydd fel arfer yn cael ei gyfryngu ar gyfer cynulleidfa gan yr awdurdod arddangos a disgrifiad "gwrthrychol", yn ail-ddychmygu ac yn ad-drefnu'r berthynas rhwng celf a threm ethnograffig anthropoleg a llên gwerin. Mae Thomas yn plethu realiti a ffuglen yn fedrus i mewn i fydsawd cyfochrog o ymadroddion gwerin amgen, felly nid yw'r gynulleidfa'n gwybod ble mae traddodiad byw yn dod i ben a realiti cysgodol yn dechrau.



Y cyflwyniad gweledol cyntaf i'r arddangosfa yw portread anffurfiol o Coombe Tennant gan yr artist o Abertawe, Evan Walters, sy'n ei dangos yn chwarae gyda dau o'i meibion. Mae absenoldeb Daphne o'r paentiad yn awgrym o'i phresenoldeb annaeorol tyner, sy'n llifo drwy'r gosodiad. Mae'r waliau o amgylch *Spirit Mirror* wedi'u leinio â phrintiau bach a phinnau ac inc a ddewiswyd o'r casgliad parhaol, gan gynnwys ychydig o drysorau gan William Blake a Victor Hugo. Mae'r delweddau




PROPHECY



The deep of winter came,
What time the secret child,
Descended thro' the orient gates of the eternal day;
War ceased, & all the troops like shadows fled
to their abodes.



Then Enetharman saw her sons & daughters rise around,
Like pearly clouds they meet together in the crystal house;
And Lios' palselor of the moon, joyd in the peaceful night;
Thus speaking while his numerous sons shook their bright fiery wings



Again the night is come
That strong Urthona takes his rest,
And Urizen unloosed from chains
Glowes like a meteor in the distant north
Stretch forth your hands and strike the elemental strings
Awake the thunders of the deep,

hyfryd hyn o dirweddau arallfydol eraill yn helpu i gludo'r gwyliwr rhwng y bydoedd, gan ddarparu gwagle ar gyfer y profiad trothwyol hwn. Fel artist ac awdur, roedd Coombe Tennant yn dwlu ar Blake, ac mae gan yr oriel nifer o argraffiadau chwedlonol Blake sy'n ymwneud â'i broffwydoliaethau nad ydynt erioed wedi'u dangos o'r blaen. Mae'r arddangosfa hon hefyd yn helpu i ffurfio pont egniol i'r arddangosfa Not Without My Ghosts sydd hefyd yn cynnwys gwaith gan Blake.

Mae bod yn fam yn thema sy'n codi dro ar ôl tro yn y gwaith. Mae'r gosodiad a'r cydosodiad yn gwasanaethu fel arddeisyfiad Coombe Tennant ac ar adegau ei merch, a adlewyrchir drwy brofiad Thomas ei hun o famolaeth. Mae un adran yn cynnwys arddangosfa o ddwy silff bren gyffredin sy'n cynnwys creiriau o adlais Daphne. Nid yw'n allor, ac eto mae'n bendant yn ofod sanctaidd, yn nod egniol, yn gonsuriaeth. Lluniodd Coombe Tennant restr o'r pethau yr oedd yn eu cysylltu â Daphne ac mae rhai ohonynt wedi'u casglu yma, gan goffáu am y plentyn absennol a galw allan i'w hysbryd. Ac eto, nid eitemau ar wahân yn unig yw'r rhain gan fod pob un yn cyfeirio at lawer o straeon a gwrthrychau eraill, gan arwain y gwyliwr i we symbolaidd o ohebiaeth, llinyn cysylltiedig o atgofion. Ym mytholeg Roegaid, cafodd Daphne, duwies hardd iawn ei throï'n llawryf i amddiffyn ei rhinwedd rhag Apollo, duw'r golau, a oedd yn ceisio ei denu, a gwelwn dirlun pren bach yn portreadu'r olygfa hon fel rhan o'r arddangosfa. Mae'r allor hon nad yw'n allor yn cynnwys deilen lawryf a cherflun o Apollo o gasgliad yr amgueddfa. Ceir delwedd o'r broffwydes Pythia, oracl Delffi yn Nheml Apollo, sy'n cyfeirio nid yn unig at y duw sy'n ei dilyn ond at bŵer y cyfryngwr. Ac roedd Pythia, yn ôl chwedl, yn defnyddio llawryf i achosi proffwydoliaeth drwy lyncu neu anadlu.

O bryd i'w gilydd, mae Thomas yn gwau ei hargraff ei hun i mewn i'r arddangosfa, gan dynnu sylw at atgofion byw o'r fam a'r ferch hanesyddol drwy'r profiad a rennir o le a mamolaeth. Mae un silff yn cynnwys delwedd o'r Deml yn Delffi gerllaw hen lun o'r cylch cerrig a godwyd ym 1925 ar gyfer yr Orsedd ym Mharc Singleton, gyda phob gwagle caregog cysegredig yn adlewyrchu'r llall. Rhannwyd y safle hwn ym Mharc Singleton gan Coombe Tennant a Thomas ddegawdau ar wahân, gyda'r artist yn mynd





â'i phlant yno y rhan fwyaf o ddyddiau yn ystod y pandemig. Mae Thomas yn disgrifio teimlo egni Coombe Tennant yn y cylch, efallai ei hysbryd hi a gedwir yn y cerrig fel cofnod etheraidd. Yn uwch i fyny ar yr arddangosfa, mae darlun o fronnau Thomas gan ei merch ei hun yn ychwanegu at yr elfen berthynol rhwng y pwnc a'r artist, sydd wedi'u gwehyddu gyda'i gilydd drwy amser gan famolaeth. Mae'r ddelwedd hon hefyd yn gysylltiedig â'r portreadau a gomisiynwyd gan Coombe Tennant o'i hun yn bwydo ar y fron, delweddau hynod bersonol sydd hefyd yn siarad ag agwedd gyffredinol a chwedlonol y berthynas hon rhwng mam a phlentyn.

Wrth symud i gefn yr ystafell, mae byrddau pren syml sy'n arddangos bwndeli o wllân o dan glochenni. Defnyddiwyd y bwndeli hyn, a oedd yn eiddo i Coombe Tennant, i greu'r gwisgoedd Cymreig yr oedd hi mor awyddus i'w gwisgo bob dydd. I Thomas, roeddent yn darparu "pwynt dirgrynol" ar gyfer galw ar ei hysbryd, arteffact yr oedd wedi cyffwrdd ynddyn nhw a'u caru, a oedd yn gwasanaethu fel pegwn rhyng-ddimensiynol ar gyfer y fenyw, ac mewn rhai ffyrdd ysbryd Cymru. Roedd y ffaith bod y deunyddiau hyn hefyd o Gastell-nedd yn darparu ffibrau cysylltiol llythrennol rhwng yr artist a'r pwnc. Cefndir y byrddau yw tapestri wedi'i argraffu ag eiconau garw sy'n debyg i bontydd cynnar, motiffau gweledol sy'n ailadrodd drwy'r arddangosfa gan gyfleu pwyntiau pontio rhwng y bydoedd.

Canolbwynt yr arddangosfa yw gofod dan fêl sydd wedi'i farcio gan adain angel brintiedig, a atgynhyrchwyd o un o argraffiadau Blake yn yr arddangosfa, gan ddangos man cyfathrebu rhwng dimensiynau sy'n cuddio myfyrdodau preifat y dirgelion mewnol. Wrth i'r fêl gael ei hagog, mae'r gwyliwr yn gweld dau fwrdd sydd wedi'u huno gan destun. Ar bob bwrdd mae drych, un gwydr ac un arall wedi'i wneud o gwyr yn ôl arddull y drych sgrïo obsidian a ddefnyddiwyd gan wyddonydd y Dadeni a'r consuriwr John Dee a'i gyfryngwr Edward Kelley. Mae'r drych cwyr hwn yn llawn olion ysbryd, ac mae wedi'i optimeiddio ar gyfer synhwyro yn hytrach na gweld, gan na ellir gweld unrhyw beth yn hawdd ar ei wyneb. Mae'r testun sy'n uno'r drychau yn ddarn o ysgrifennu awtomatig sy'n disgrifio cyfarfod rhwng dau gwmwl sy'n dod i adnabod ei gilydd, gan bontio ffiniau dimensiynol i ffurfio cydweithrediad,

gan ein hatgoffa, efallai, pan fyddwn yn ceisio cysylltu â'r ochr arall, fod endidau yno sydd efallai yr un mor awyddus i gysylltu â ni. Uwchben y gwyliwr mae creadur sy'n debyg i dylluan, rhyw fath o dylluan ysbrydol, yn eistedd ar dŵr bach, yn arsylwi, ac aros. Mae gan y tŵr ei hun arwyddocâd proffwydol, am ei fod yn awgrymu'r gallu i gymryd golwg hir.

Drwy'r arddangosfa ceir cyfeiriadau gweledol at y sianeli rhwng y bydoedd, a'r offer a ddefnyddir i gyfathrebu ag ysbrydion. Mae eitemau cwyr gwenyn yn darparu sylwedd cysylltiol ar gyfer g wahanol ddarnau'r arddangosfa. Yma gwelwn y dylluan, y drych, y gwrthrychau bach sy'n debyg i bontydd sy'n symbol o'r symudiad rhwng y gweledig a'r anweledig, a ffigwr cwyr enigmatig yng ngofod Daphne sy'n rhannol pwpa ac yn rhannol angel, fel y ferch ifanc - bob amser wedi'i dal mewn cyflwr o botensial a datblygu. Mae hanes hir i'r berthynas rhwng cwyr gwenyn a byd yr ysbrydion. Yn y gorffennol, roedd yn sylwedd o werth mawr, yn ludiog ac yn hyblyg, a chredir bod ganddo'r gallu i ddal hanfodion etheraid. Roedd cwyr hefyd yn ffurfio'r ddisg yr oedd Edward Kelley, cyfryngwr John Dee, yn ei defnyddio i sgrio, sydd wedi'i cherfio gyda'r Sigillum Dei Aemeth, symbol uno sy'n ymgorffori enwau Duw a'i angylion, gan achosi gweledigaethau a fyddai wedyn yn dod i'r amlwg yn y drych sgrio obsidian neu garreg 'shew'. Wrth gwrs, credir bod gwenyn eu hunain yn hwyluso cyfathrebu â'r meirw, gan drosglwyddo clecs a gwybodaeth rhwng y byw a byd y cysgodion.

Nid pwrpas *Spirit Mirror* yw eich addysgu am Winifred Coombe Tennant, er mae'n ddigon posib y byddwch yn dysgu llawer amdani. Yn lle, mae Fern Thomas yn eich gwahodd i ffordd wahanol o wybod, ysbryd i ysbryd, yn union fel y mae hi wedi'i wneud, gan ddenu ei hendid i deyrnas y byw gyda'r pethau yr oedd hi'n eu caru fwyaf: celf, Cymru, ei phlant, gan ysgogi cymysgedd hyfryd o gofio. Roedd Coombe Tennant yn sicr y byddai'n parhau i fodoli ar ôl marwolaeth, ac os yw hen straeon y byd arall Cymreig yn wir, mae hi'n debygol iawn o fod yn bresennol, ond ychydig allan o gyrraedd, yn ymestyn ei llaw i gwrdd â'ch un chi.





